# Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol

## 19 Chwefror 2025

Yn bresennol
Dr R Heath Davies (Cadeirydd)
Cynghorydd D Clements, Dr M Havard, Cynghorydd M James, Mrs J James, Cynghorydd A Tinley a Mrs V Thomas

Swyddogion yn bresennol
Ceri Kwiecinski, Astari (Archwilio Mewnol), Prif Weithredwr, Pennaeth Cyllid a Chodi Arian, Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth, Pennaeth Gwasanaethau Pobl, Rheolwr Rheoli Datblygu, Cyfarwyddwr Byd Natur a Thwristiaeth, a'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd.

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am -11.25pm; 11.35am – 1.35pm)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd B Price a'r Cynghorydd S Skyrme-Blackhall.

**2. Datgan Buddiannau**
Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2024 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Nodwyd bod y Cynghorydd V Thomas wedi'i nodi yn Mrs yn anghywir yn hytrach na'r Cynghorydd Thomas yn y rhestr o'r rhai oedd yn bresennol. Gofynnodd Dr Heath-Davies hefyd am i'r cofnodion gael eu diwygio i egluro ei bod ar ddechrau'r cyfarfod yn aros am alwad o'r ysbyty, yn hytrach na bod yn sâl.

Ar gynnig y Cynghorydd Clements, a eiliwyd gan Dr Heath Davies, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2024 yn amodol ar y newidiadau uchod.

**4. Materion yn Codi / Log Gweithredu**
**a) Adroddiad Perfformiad ar yr Amcanion Llesiant (Cofnod 7)**
Gofynnwyd am ddiweddariad ar y camau ymlaen o ran cyllidebu ar sylfaen sero, a dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai cyllideb yr Awdurdod am y flwyddyn i ddod yn cael ei phennu yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod, ond bod gwaith yn mynd rhagddo i leihau'r diffyg ariannol gyda'r nod o osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2026/27. Byddai cyfres o

opsiynau yn cael eu cyflwyno gerbron yr Aelodau mewn gweithdy ar y gyllideb i'w gynnal ar yr 2[ail] o Ebrill.

**b) Adroddiad ar Fonitro Sicrwydd (Cofnod 8)**
Gofynnwyd am ddiweddariad ynghylch adrodd ar ffigurau perfformiad cynllunio, a dywedodd y Rheolwr Rheoli Datblygu bod cyfarfodydd gyda'r darparwr gwasanaeth, Agile, yn mynd rhagddynt i geisio datrys y mater, ond yn y cyfamser roedd y ffigurau wedi'u cyfrifo â llaw a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

**c) Adroddiad Chwarterol ar Iechyd, Diogelwch a Lles (Cofnod 9)**
Gofynnodd Aelod a oedd bwriad i benodi swyddog Iechyd a Diogelwch yn dilyn ymadawiad y Swyddog Prosiect Iechyd a Diogelwch. Atebodd y Prif Weithredwr mai cyfrifoldeb y rheolwyr oedd Iechyd a Diogelwch ac er ei bod yn debygol y byddai mwy o adnoddau yn cael eu neilltuo yn benodol ar gyfer iechyd a diogelwch fel rhan o ad-drefnu'r Tîm Cefn Gwlad, nid oedd unrhyw gynlluniau ar droed i benodi rhywun i weithio'n fwy corfforaethol. Byddai arbenigwyr yn cael eu galw i roi cyngor yn ôl yr angen.

**d) Log Gweithredu**
Gofynnwyd am i gam 995 ynghylch crisialu'r risg arian parod oedd ar y gofrestr is-risgiau, gael ei gwblhau erbyn y cyfarfod nesaf. Hefyd gwnaed awgrym ynghylch darparwr ar gyfer yr hyfforddiant diogelu haen 2. Dywedwyd y byddai'r swyddogion yn archwilio'r awgrym hwn.

**Nodwyd** y diweddariadau oedd yn weddill yn y Log Gweithredu.

**5. Grŵp Iechyd a Diogelwch**
Derbyniwyd adroddiad y Grŵp Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 8 Hydref 2024.

Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd bod camau ymlaen yn cael eu cymryd ar y cam gweithredu i gadarnhau bod staff wedi darllen yr asesiadau risg perthnasol (cofnod 6), ac awgrymwyd y gellid monitro hyn drwy'r system perfformiad. Dywedodd y swyddogion bod y gwaith o ddatblygu proses yn parhau, ac y byddai'r broses yn cael ei thrafod mewn cyfarfod o'r Grŵp Iechyd a Diogelwch yn y dyfodol.

**Nodwyd.**

**6. Adroddiad ar y Camau Ymlaen gan Archwilio Mewnol**
Croesawodd y Cadeirydd Ceri Kwiecinski o Astari, archwilwyr mewnol yr Awdurdod, a roddodd ddiweddariad ar y gwaith o lunio Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2024/25, yn ogystal â chrynodeb o'r gwaith a wnaed.

Dywedodd bod gweithredu safonau archwilio mewnol byd-eang fis Ionawr 2025 yn rhoi mwy o gyfrifoldeb ar bwyllgorau archwilio i ymgysylltu â'r broses archwilio, ac awgrymodd y dylid cynnal cyfarfod naill ai gyda'r Cadeirydd neu'r Pwyllgor Archwilio i ystyried y meysydd hynny yr oedd angen sicrwydd arnynt, ac y gellid eu cynnwys yn y cynllun archwilio ar gyfer y flwyddyn sy'n dod. Cytunwyd y byddai Ms Kwiecinski yn rhoi gwybodaeth am amserlen briodol ar gyfer y cyfryw gyfarfod ac y byddai'r Cadeirydd yn ceisio awgrymiadau gan Aelodau'r Awdurdod drwy'r e-bost.

Roedd y cyntaf o ddau adroddiad a gyflwynwyd yn ddilyniant ar aeddfedrwydd risg oedd wedi dod i'r casgliad y gallai'r Aelodau gymryd rhywfaint o sicrwydd bod y pump argymhelliad a godwyd yn yr adolygiad Aeddfedrwydd Risg 2023/24 a'r un argymhelliad a dderbyniwyd o adolygiad Lliniaru Risg 2021 TIIA wedi'u gweithredu fel y cytunwyd. Roedd dal angen gwaith i weithredu pump o'r chwech argymhelliad yn llawn, ac roedd y pump hyn wedi'u diweddaru a'u hail-nodi yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer yr adroddiad. Nid oedd unrhyw argymhellion newydd wedi'u codi.

Atgoffodd y Prif Weithredwr y Pwyllgor, yn dilyn y Gweithdy i'r Aelodau, bod yr Awdurdod wedi cytuno fis Mawrth 2024 ar bolisi newydd ar reoli risg, ond nid oedd yr Archwilwyr o'r farn bod yr amcanion a nodir yn y Gofrestr Risg yn cyd-fynd ag Amcanion Strategol yr Awdurdod. Roedd yr argymhellion a nodir yn yr adroddiad wedi'u derbyn gan y swyddogion, a phe byddai'r argymhellion hyn yn cael eu cytuno gan y Pwyllgor, byddai gwaith yn cael ei wneud i adolygu'r Polisi a'r Gofrestr, gyda'r bwriad o gyflwyno'r rhain gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor. Mewn ymateb i gwestiwn, eglurodd y Prif Weithredwr nad oedd canllawiau wedi'u paratoi hyd yn hyn gan mai'r bwriad oedd y byddai hynny yn dilyn ymlaen ar ôl paratoi'r cofrestri is-risgiau, a bod y gwaith ar y cofrestri eisoes wedi cychwyn. Er y byddai'r gwaith ar y canllawiau yn cael ei ddwyn ymlaen, nid oedd yn sicr a fyddai wedi ei gwblhau erbyn y cyfarfod nesaf. Cytunodd y Pwyllgor ar y dull hwn o weithredu. Ychwanegodd y Prif Weithredwr nad oedd o'r farn y byddai rhoi'r gwaith ar gontract allanol o gymorth gan fod angen i'r gwaith gael ei berchnogi gan yr Awdurdod.

Roedd yr ail adroddiad yn ymwneud â'r adolygiad o'r Strwythurau a'r Prosesau Llywodraethu, oedd wedi dod i'r casgliad y gallai'r Aelodau gymryd sicrwydd sylweddol bod strwythur llywodraethu yr Awdurdod yn unol ag arfer da, a bod y prosesau llywodraethu allweddol yn addas i'r diben ac yn cyd-fynd â'r disgwyliadau allweddol. Roedd un argymhelliad blaenoriaeth ganolig ac un argymhelliad blaenoriaeth isel wedi'i wneud.

**Nodwyd.**

**7 . Log Gweithredu ar gyfer Archwilio Perfformiad Allanol ac Archwilio Mewnol (Yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2024)**

Atgoffwyd yr Aelodau, yn dilyn cais gan y Pwyllgor, bod Log Gweithredu ar gyfer Archwilio Perfformiad Allanol ac Archwilio Mewnol wedi'i greu er mwyn cynorthwyo i fonitro'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt o’r adolygiadau Archwilio. Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar bob un o'r camau gweithredu, oedd wedi'u diwygio ers y cyfarfod diwethaf mewn ymateb i’r sylwadau. Eglurwyd y byddai'r camau hynny oedd yn codi o'r adroddiadau Archwilio Mewnol a gyflwynwyd y bore hwnnw yn cael eu hychwanegu at y Log Gweithredu yn dilyn y cyfarfod.

Gofynnodd yr Aelodau am ddiweddariad ar yr archwiliad Seiberddiogelwch ac ar yr archwiliad dwfn o’r gofrestr is-risgiau, a dywedodd y swyddogion y gellid rhoi diweddariad ar seiberddiogelwch yn y cyfarfod nesaf fel rhan o’r sesiwn breifat, ac y gellid cynnwys gwybodaeth ar y gofrestr is-risgiau yn yr adroddiad ar y Gofrestr Risg.

**Nodwyd**.

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11.25am a 11.35am]

**8. Diweddariad ar y Cynllun Archwilio gan Archwilio Cymru**

Atgoffwyd yr Aelodau bod Archwilio Cymru wedi cyflwyno'r Cynllun Archwilio ar gyfer 2024-25 yng nghyfarfod y Pwyllgor fis Gorffennaf 2024, ond dywedwyd bryd hynny bod y rhaglen ar berfformiad i'w chadarnhau. Roedd llythyr bellach wedi dod i law oddi wrth Archwilio Cymru yn nodi’r gwaith sy’n cael ei wneud yn ystod mis Chwefror 2025, ac anfonwyd y llythyr hwn er gwybodaeth.

**Nodwyd.**

**9. Adroddiad Monitro Sicrwydd - Cydymffurfiaeth, Dyletswyddau Cyhoeddus a Statudol, a Gwelliant Corfforaethol**

Dywedodd y Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth mai nod yr adroddiad hwn oedd adolygu perfformiad presennol yr Awdurdod o ran cydymffurfiaeth, dyletswyddau cyhoeddus a statudol, a meysydd gwelliant corfforaethol. Byddai'r adroddiad hwn yn un elfen o'r mesurau rheoli risg, ac yn gymorth i’r swyddogion ac i’r Aelodau fonitro, asesu ac ymateb i feysydd gwaith cydymffurfiaeth a gwelliant corfforaethol. Hefyd roedd yr adroddiad yn amlinellu’r camau ymlaen yn erbyn y meysydd gwelliant corfforaethol a glustnodwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod ac yn y Cynlluniau Cyflawni.

Roedd yr adroddiad yn rhoi sgoriau cydnerthedd ar gyfer pob maes, a lle bod lefelau goddefiant neu sbardunau wedi’u cyrraedd oedd yn arwain at

sgôr a ystyrir sy’n 'peri risg neu sy'n ‘peri pryder', roedd gwybodaeth ychwanegol ac ymateb y rheolwyr wedi'u rhoi. Y cyfnod adrodd oedd y cyfnod yn diweddu chwarter 3 2024/25.

Nodwyd bod datblygiad cadarnhaol wedi bod o ran darparu ystadegau cynllunio, a'r gobaith oedd y byddai'r materion wedi cael eu datrys yn llawn erbyn y cyfarfod nesaf. Hefyd cyfeiriodd y Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth at wall ar dudalen 72 o'r adroddiad lle dylai'r ffigwr am anfonebau a dalwyd ar amser fod yn 93.86%.

Roedd yr Aelodau yn bryderus ynghylch rhai o'r camau gweithredu oedd heb eu cymryd, yn arbennig y cynllun cyhoeddi, cofnodion prosesu ac adolygu polisïau, a gofynnwyd am ddyddiad cwblhau; rhoddodd y swyddog sicrwydd bod y gwaith arnynt yn mynd rhagddo. Nododd y Prif Weithredwr, oherwydd maint y gofynion llywodraethu a roddir ar Awdurdod bach, ei bod yn heriol peidio â chael unrhyw faes sy’n cael ei ystyried yn 'peri risg neu yn ‘peri pryder'. Fodd bynnag roedd yr Awdurdod yn gweithredu'n dryloyw drwy amlygu meysydd lle'r oedd angen gwneud gwaith. Barnai bod yr Awdurdod yn gweithredu'n effeithiol, ond ar adeg o geisio arbed arian, rhaid oedd cael cydbwysedd rhwng neilltuo adnoddau ychwanegol i'r materion hyn oedd heb eu cwblhau yn erbyn cadw gwasanaethau rheng flaen.

**Nodwyd.**

**10. Adroddiad Perfformiad ar yr Amcanion Llesiant am y Cyfnod yn diweddu ar 31 Rhagfyr 2024**

Dywedwyd bod yr adroddiad hwn yn nodi perfformiad yr Awdurdod yn erbyn ei bedwar Amcan Llesiant (Cadwraeth, Hinsawdd, Cysylltiad a Chymunedau) a nodir yn y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2023/24 – 2026/27. Roedd yr adroddiad yn amlinellu’r camau ymlaen yn erbyn y dangosyddion blaenoriaeth, prosiectau, rhaglenni gwaith a gweithgareddau datblygu mewnol oedd yn gysylltiedig â’r gweithgareddau a glustnodir yng Nghynlluniau Cyflawni yr Awdurdod. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad hyd at 31 Rhagfyr 2024 ac yn cynnwys ystadegau Chwarter 3 ar gyfer rhai mesurau.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, rhoddwyd diweddariad ar effaith difrod stormydd, oedd wedi bod yn sylweddol, ac ar yr astudiaeth ar drafnidiaeth gynaliadwy a'i chysylltiadau â'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r prosiect e-feic.

**Nodwyd.**

**11. Adroddiad Chwarterol ar Iechyd, Diogelwch a Lles**

Roedd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Pobl yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ddamweiniau a digwyddiadau yn ystod 2024, monitro'r Syndrom Dirgryniad Llaw a Braich, materion Iechyd a Diogelwch, ac am hyfforddiant. Hefyd cyflwynwyd y cyfraddau absenoldeb staff oherwydd salwch. Dywedodd y byddai gwaith pellach i'w wneud i annog rhoi gwybod am ddigwyddiadau fu bron â digwydd.

Gofynnodd yr Aelodau am i wybodaeth am y gwersi a ddysgwyd gael ei nodi mewn adroddiadau yn y dyfodol, yn enwedig mewn perthynas â digwyddiadau RIDDOR (Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus), a bod y tabl o'r digwyddiadau yn cael ei drefnu mewn rhyw fodd. Hefyd gofynnwyd cwestiwn ynghylch hawliadau o ganlyniad i anafiadau, ac a oedd unrhyw hawliad yn dal heb ei benderfynu. Dywedodd y swyddogion nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw hawliad heb ei benderfynu, ac y byddent yn cadarnhau a oedd swm wrth gefn yn cael ei neilltuo ar gyfer hawliadau o fewn y cyllidebau.

**Nodwyd.**

**12. Adroddiad ar y Gyllideb Gyllid am y 9 mis hyd at Rhagfyr 2024**

Roedd yr adroddiad yn manylu ar y gyllideb refeniw net oedd yn dangos diffyg net o £9k yn erbyn y diffyg yn y gyllideb a ddisgwyliwyd o £441k (£432k yn well na'r gyllideb). Roedd y costau cyffredinol yn £219k yn uwch na'r gyllideb, a manylwyd ar yr amrywiadau yn yr adroddiad (er y nodwyd bod y croesau a'r ticiau yng ngholofn olaf y tabl ar dudalen 142 wedi'u gwrthdroi mewn camgymeriad), ynghyd â chrynodeb o berfformiad y manwerthu.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, y sefyllfa refeniw a ragwelwyd ar gyfer diwedd blwyddyn 2024/25 oedd gwarged gweithredol o tua £313k er gwaethaf diffyg net yn y gyllideb o £509k yn ôl y gyllideb wreiddiol. Roedd hyn i'w briodoli i gyllid refeniw ychwanegol o £660k a dderbyniwyd oddi wrth Lywodraeth Cymru, a chynnydd mewn incwm buddsoddi. Felly ni ddisgwylir diffyg yn y gyllideb am 2024-25.

Roedd y rhaglen gyfalaf am y flwyddyn wedi cynyddu o'r gyllideb wreiddiol o £972k i gyllideb ddiwygiedig o £1,758k. Roedd y gyllideb wedi cynyddu yn bennaf oherwydd cynnwys eitemau ar archeb ar ddiwedd y flwyddyn ond heb eu derbyn, cyllideb uwch ar gyfer adeiladu'r Ystafell Werdd arfaethedig, offer Iechyd a Diogelwch ychwanegol, boeler newydd mewn argyfwng yn rhedeg ar naddion pren, system gyllid newydd, ac Uwchraddio Technoleg Gwybodaeth.

Hefyd rhoddwyd y ffigurau ar gyfer y cronfeydd wrth gefn, sef y cronfeydd cyffredinol a'r cronfeydd wedi'u clustnodi; rhagwelwyd y byddai balans y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn £1,520K ddylai gadw balans y gronfa o fewn y polisi cronfeydd wrth gefn, tra bod disgwyl i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn a'r Grantiau Cyfalaf Heb eu Defnyddio gael eu defnyddio yn ystod y flwyddyn. Roedd disgwyl hefyd y byddai'r arian wrth gefn a glustnodwyd yn lleihau yn ystod 2024-25 wrth i'r prosiectau gael eu cyflawni.

Canmolodd yr Aelodau yr ymarferiad cyllidebu ar sylfaen sero a gynhaliwyd, a holwyd am effaith y cynnydd yng nghyfraniad Yswiriant Gwladol Cyflogwyr. Atebodd y swyddogion gan nad oedd cadarnhad wedi dod i law y byddai cyllid ychwanegol ar ei ffordd, roedd cost lawn y cynnydd wedi'i ddangos yn y gyllideb. Gwnaed sylw hefyd ynghylch incwm y canolfannau ymwelwyr, a dywedodd y Cyfarwyddwr Byd Natur a Thwristiaeth bod y tywydd yn chwarae rhan holl bwysig a bod llawer iawn o waith ar y gweill; dywedodd y byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor Adolygu Gweithredol yn canolbwyntio ar waith y Canolfannau ac y byddai'r adroddiad hwnnw yn cael ei rannu â'r Pwyllgor.

**Nodwyd** yr adroddiad a chymeradwywyd y symudiad yn y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a'r cynnydd yn y gyllideb gyfalaf hyd yn hyn.

**13. Eithrio'r Cyhoedd**

Ar gynnig y Cynghorydd James, a eiliwyd gan y Cynghorydd Clements, **PENDERFYNWYD** eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu.

**14. Polisi Rheoli Risg – Cofrestr Risg a Datganiad Rheoli Risg**

Dywedodd y Prif Weithredwr, ar ôl ystyried adroddiad yr Archwilio Mewnol ar Aeddfedrwydd Risg yn gynharach yn y cyfarfod, y byddai'r swyddogion yn bwrw ymlaen â'r argymhellion sy'n effeithio ar ddulliau'r Awdurdod o Reoli Risg a'r Gofrestr Risg, ac y byddai'r dogfennau wedi'u diweddaru yn cael eu cyflwyno gerbron y cyfarfod nesaf. Ychydig iawn o newidiadau a wnaed i'r Gofrestr Risg ers y cyfarfod diwethaf a thynnwyd sylw at y rhain a thrafodwyd awgrymiadau eraill gan yr Aelodau.

**Nodwyd.**

**15. Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus**

**PENDERFYNWYD** nad oedd unrhyw faterion o bryder yr oedd y Pwyllgor yn dymuno eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried**.**

Cadarnhawyd y cofnodion hyn (cyn belled ag y cynhwysir y newidiadau sy'n dilyn) yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 14 Mai 2025:

Nodwyd bod y gair 'that' wedi'i nodi ddwywaith yn yr ail baragraff ar dudalen 3 o'r fersiwn Saesneg (Cofnod 6 Adroddiad ar y Camau Ymlaen gan Archwilio Mewnol). Hefyd o ran y cydbwysedd i'w daro ar gwblhau'r camau gweithredu oedd heb eu cymryd a nodir yng nghofnod 9 (Adroddiad Monitro Sicrwydd) gofynnodd y Cadeirydd am nodi bod rhaid sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i sicrhau cydymffurfiaeth.